OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 479

## Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013

**Cymwysterau archwilwyr bwyd**

**5.**—(1) Mae person yn gymwysedig i fod yn archwilydd bwyd—

(a) os oedd y person hwnnw, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, yn gymwysedig ar gyfer bod yn archwilydd bwyd o dan reoliad 4 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) 1990(**1**); neu

(b) os oedd y person hwnnw, ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw,

(i) yn meddu ar gymhwyster a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 2; a

(ii) wedi bod yn cynnal archwiliadau bwyd dros gyfnod neu gyfnodau cyfanredol o dair blynedd o leiaf, yn un neu ragor o'r labordai a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen honno.

(2) Wrth gyfrifo'r cyfnod cymhwyso ym mharagraff (1)(b)(ii), rhaid peidio â chymryd i ystyriaeth unrhyw gyfnod a dreuliwyd fel person israddedig mewn labordy a bennir ym mharagraffau 4 i 6 o Ran 2 o Atodlen 2.

(**1**) O.S. 1990/2463.